# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Breakthro' Caerfyrddin**

**Heol yr Orsaf**
**Nantgaredig**
**Caerfyrddin**
**SA32 7LQ**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Mercher, 23 Awst 2017**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2017.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gellir gweld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gellwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cafodd Breakthro' Caerfyrddin ei gofrestru yn 1996 i ddarparu gofal y tu allan i oriau ysgol i hyd at ddeg o blant. Mae'r gwasanaeth yn cynnig gofal i blant ag anghenion ychwanegol sydd rhwng pump ac 19 oed. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu rhwng 10am a 4pm ddydd Sadwrn ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Y person cofrestredig yw Emyr Huw Beynon, ac ef yw'r person â gofal hefyd. Mae'r gofal yn cael ei ddarparu yn Saesneg ac yn Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Gwelsom fod plant yn mwynhau eu hunain yn Breakthro' Caerfyrddin. Maent yn cael hwyl gyda'u ffrindiau a gofalir amdanynt mewn amgylchedd diogel a chyffrous. Gofalir amdanynt gan staff gwybodus, meithringar a chyson sydd yn ymrwymedig i fodloni eu gofynion unigol. Mae rhieni yn hapus iawn â'r gwasanaeth gwych a ddarperir.

**2. Gwelliannau**

Mae'r arweinwyr wedi prynu offer awyr agored ychwanegol ac wedi lansio gwefan newydd.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Dim.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae’r plant wedi ymgartrefu ac maent yn hapus yn y gwasanaeth. Dywedasant wrthym eu bod yn mwynhau dod i’r gwasanaeth i chwarae â’u ffrindiau a gwneud gweithgareddau megis coginio, celf a chrefft, mynd ar dripiau, a chwarae yn yr ardal awyr agored.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau mae gan y plant lais?

Mae plant yn gwneud dewisiadau ac yn dweud eu dweud.

Gwelsom blant yn dewis gemau a gofyn i’r staff am bethau mewn modd hyderus. Roedd y plant yn gwneud dewisiadau annibynnol i chwarae ar eu pen eu hunain, gyda ffrindiau neu gyda staff. Wrth gyrraedd y gwasanaeth, dewisodd rhai o’r plant ymlacio ar y dodrefn meddal cyfforddus yn y gornel ddarllen, tra dewisodd eraill dreulio amser yn yr ardal greadigol neu feicio ar dreiciau arbenigol. Dywedodd un plentyn wrth aelod o staff ei fod yn dymuno cael stori fer wedi ei darllen iddo, ac agosaodd at yr aelod o staff wrth i’r stori gael ei darllen. Gwnaeth y plant sgwrsio â staff mewn modd hamddenol am yr hyn yr oeddent wedi’i wneud gartref ers eu hymweliad diwethaf, megis barbeciw teuluol, a gwnaethant ofyn cwestiynau fel “Ydych chi’n hoffi fy esgidiau newydd?”

Mae gan blant lais cryf yn y gwasanaeth hwn.

### 1.2 I ba raddau mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae plant yn ffurfio cydberthnasau cadarn ac maent yn hyderus y bydd eu teimladau’n cael eu hystyried. Mae’r plant yn ymgysylltu â’u chwarae ac yn dangos diddordeb a chyffro wrth iddynt chwarae. Maent yn cynnal eu diddordeb mewn gweithgareddau ac yn gyfarwydd â chwarae strwythuredig ac amser rhydd.

Gwelsom blant yn gwenu, chwerthin a sgwrsio â’u ffrindiau ac oedolion. Nododd plant y staff y byddent yn siarad â nhw pe byddent yn teimlo’n drist a dywedasant wrthym eu bod yn teimlo’n ddiogel yn y gwasanaeth. Dywedodd plentyn wrthym ei fod yn hoffi dod i’r gwasanaeth gan ei fod “yn cael bod yn fi fy hun a theimlo’n rhydd”. Gwelsom fod y plant yn gyffrous ac yn hapus pan gyraeddasant y gwasanaeth. Roeddent yn edrych ymlaen i’w ffrindiau gyrraedd ac yn eu cyfarch â brwdfrydedd, gyda rhai’n eu cofleidio ac eraill yn ysgwyd llaw. Roeddent yn amlwg yn gyfarwydd â’r drefn ar ôl cyrraedd a dewisasant eu hoff weithgareddau. Yn ystod y sesiwn, dewisodd plentyn gysgu ar y dodrefn meddal, gan ddangos ei fod yn gyfforddus yn ei amgylchedd.

Mae plant wedi ymgartrefu'n dda ac yn teimlo'n ddiogel iawn ac yn hapus.

### 1.3 Pa mor dda mae'r plant yn rhyngweithio?

Mae plant wedi ymgartrefu ac yn meithrin cydberthnasau serchog â staff a'u cyfoedion.

Gwelsom fod plant yn hapus, wedi ymgartrefu ac wedi ymlacio yn ystod ein hymweliad. Roeddent yn brysur yn chwarae a gwelsom blentyn yn chwarae cuddio ag aelod staff yn ogystal â gofyn am ei hoff stori. Roedd grŵp bach yn mwynhau gwrando ar gerddoriaeth ac yn canu ynghyd â'r geiriau wrth drafod y cyngerdd pop ar ddod yr oedd rhywun roeddent yn ei adnabod yn mynd iddo. Cymeradwyodd y staff a'r plant ar ôl iddynt orffen canu un gân benodol. Roedd plant yn mwynhau chwarae ar dreiciau a siglenni. Pan aeth plentyn ar dreic ychydig yn rhy agos at y siglen, ymatebodd y plentyn ar y siglen gan blygu ei goesau i mewn i osgoi cicio'r plentyn arall. Dangosodd y plant gwrteisi wrth ofyn i'w gilydd a gânt dro ar siglen benodol ac wrth ofyn i staff a gânt adael y bwrdd ar ôl bwyta byrbryd. Yn ystod amser cinio, sgwrsiodd y plant a'r staff gan chwerthin mewn modd ymlaciol wrth drafod am ddigwyddiad doniol yn y gwasanaeth pan beintiodd un o'r plant wynebau'r staff. Dywedodd rhieni wrthym mai dyma'r unig gyfle i'w plant gymdeithasu â'u ffrindiau a'u bod yn edrych ymlaen at ddod i Breakthro' Caerfyrddin. Roedd hyn yn amlwg yn y ffordd roedd plant yn rhyngweithio â'i gilydd yn ystod ein hymweliad. Tapiodd un plentyn blentyn arall ar y cefn a dweud, "Ti yw fy ffrind gorau." Cafodd ei wobrwyo gyda gwên fawr gan ei ffrind.

Mae'r plant wedi ymgartrefu'n dda, yn hapus, ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn y gwasanaeth hwn.

### 1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae plant yn cymryd rhan mewn chwarae hunangyfeiriedig yn y gwasanaeth hwn ac maent yn elwa ar y cyfleoedd a ddarperir.

Gwelsom blant yn dewis o blith amrywiaeth o weithgareddau oedd ar gael. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn cael dewis beth roeddent eisiau ei wneud a'u bod yn mwynhau coginio, celf a chrefft, a threulio amser yn yr ystafell synhwyraidd neu dawel yn enwedig. Roeddent yn mwynhau'r cyfle i dreulio amser â'u ffrindiau yn "sgwrsio ac ymlacio" yn arbennig.

Roedd y plant yn gwenu ac yn chwerthin wrth iddynt reidio treiciau, mynd yn ôl a blaen ar y siglen, a mynd ar y wifren sip. Chwaraeodd grŵp o blant yn y pwll tywod a dewisodd rhai dynnu eu sanau a'u hesgidiau. Roedd rhai plant yn awyddus i ddangos beth roeddent yn ei

wneud, a siarad am hynny. Dewisodd un plentyn gael stori ac amser tawel i ymlacio yn yr ystafell synhwyraidd tra dewisodd plant eraill liwio a thynnu lluniau.

Mae plant yn mwynhau eu chwarae yn arw.

### 1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?

Mae plant yn datblygu eu sgiliau unigol a'u hannibyniaeth.

Roedd plant yn gyfforddus yn eu hamgylchoedd a gwnaethant ddangos hyder wrth ddewis eu gweithgareddau eu hunain a chyfarwyddo eu chwarae eu hunain, megis chwarae ar y siglen neu yn y pwll tywod. Yn ystod amser byrbryd, rhoddwyd tost i'r plant a chawsant eu hannog i'w dorri a rhoi menyn arno eu hunain. Daeth y plant â'u bocs bwyd eu hun a dychwelyd eu bagiau bwyd i'r ardal ddynodedig, gan wneud hynny'n annibynnol. Roedd y plant yn cael eu hannog i roi eli haul ar eu hunain ond cawsant gymorth pan oedd angen.

Mae plant yn datblygu'n dda ac yn dod yn fwy annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae staff yn adnabod y plant sydd yn eu gofal yn dda ac yn darparu gofal ymatebol sy'n bodloni eu gofynion unigol. Maent yn creu awyrgylch hamddenol a meithringar lle mae plant yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn chwarae o'u dewis nhw ac mae eu datblygiad unigol yn cael ei hyrwyddo.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae staff wedi ymgymryd â'r hyfforddiant angenrheidiol i gadw plant yn ddiogel ac yn iach, ac maent yn dilyn gweithdrefnau addas wrth ymateb i ddamweiniau.

Gwyddai'r staff fod diogelu plant yn flaenoriaeth uchel ac roedd ganddyn nhw ddealltwriaeth dda o ran delio â phryderon neu ddatgeliadau mewn sefyllfaoedd a roddwyd iddynt. Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi cael yr hyfforddiant cymorth cyntaf diweddaraf, ac eraill wedi trefnu'r hyfforddiant. Roedd gweithdrefnau clir ar waith i ymdrin ag unrhyw ddamweiniau. Gwelsom logiau damweiniau oedd wedi eu harwyddo gan staff a rhieni. Roedd gan bob plentyn unigol ei asesiad risg ei hun ar gyfer y cartref ac ar gyfer tripiau, ac roedd cynlluniau unigol ar gyfer gadael mewn achos o dân. Gwelsom fod staff yn gyfarwydd â'r dogfennau a'r gweithdrefnau. Gwelsom staff yn rhoi gweithdrefnau hylendid da ar waith – er enghraifft, golchon nhw eu dwylo a gwisgo ffedog wrth baratoi bwyd. Gwnaethant sicrhau hefyd bod y byrddau wedi eu sychu'n lân cyn i'r plant eu defnyddio i fwyta eu bwyd. Gwelsom restr o fyrbrydau iachus a gwybodaeth ar alergenau yn y gegin.

Mae staff yn effeithiol wrth gadw'r plant yn iachus a diogel.

### 2.2 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r ymarferwyr yn cefnogi'r plant i ryngweithio yn briodol.

Gwelsom staff yn annog plant i rannu, bod yn glên â'i gilydd ac ystyried teimladau plant eraill. Gweithiodd y staff yn unol â pholisi ymddygiad y cartref, ac fe ganmolodd y staff y plant yn aml. Roedd gan y staff ddealltwriaeth dda o wahanol anghenion a chyfnodau datblygu'r plant, a gwelsom hwy yn dangos sensitifrwydd tuag at y rhain wrth reoli rhyngweithio rhwng y plant. Dangosodd y staff yr ymddygiad disgwyliedig trwy siarad â'i gilydd a'r plant yn gyfeillgar. Cynhyrfodd un plentyn wrth chwilio am ei hoff lyfr. Cafodd ei gysuro a siaradwyd ag ef mewn modd gostegol a chyfeillgar nes y daethpwyd o hyd i'r llyfr. Dywedodd y rhieni wrthym fod y staff yn ofalgar a chefnogol o'r plant, yn enwedig y rhai oedd ag ymddygiad heriol. Roedd gan bob plentyn lyfr cyswllt lle'r oedd rhieni yn nodi unrhyw ddigwyddiadau pwysig oedd wedi digwydd gartref, megis prynu tegan newydd,

ymateb neu salwch, ynghyd ag ymddygiad cyffredinol y plentyn. Nododd y staff yn y llyfr cyswllt pa weithgareddau oedd y plentyn yn eu mwynhau, ymddygiad y plentyn, a beth oedd wedi ei fwyta.

Mae staff yn rheoli rhyngweithio yn dda.

### 2.3 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant, ac yn bodloni eu hanghenion unigol?

Mae staff yn caniatáu i'r plant reoli eu chwarae eu hunain ac maent yn ymatebol wrth ddarparu cefnogaeth ychwanegol pan fo angen.

Roedd staff yn darparu gofal meithringar ac ymatebol. Trwy sgwrsio ac arsylwi arnynt, canfuom eu bod yn adnabod y plant yn dda. Roedd rhieni yn llenwi dogfen proffil gynhwysfawr am eu plentyn cyn iddo ddechrau yn y gwasanaeth. Roedd y proffil yn cynnwys manylion am ba fath o gefnogaeth oedd ei hangen o ran bwyd a diod, sensitifrwydd arbennig i sŵn a golau, a sut roedd y plentyn yn mynegi ei deimladau. Roedd gan ambell blentyn gynllun rheoli ymddygiad yn ogystal ag amserlen weledol. Darparodd y staff gefnogaeth ychwanegol pan oedd ei hangen, megis ar amser byrbryd neu i gynorthwyo'r plant i gael mynediad i'r tŷ bach. Roedd y staff yn cefnogi datblygiad sgiliau iaith a chymdeithasu'r plant gan iddynt eistedd ar lefel y plant a sgwrsio am eu diddordebau, yr ysgol a'u bywyd gartref. Gwelsom gynllunio gweithgareddau manwl a oedd yn cynnwys gweithgareddau eang i'r plant ar thema archarwyr. Gwelsom fod y cartref yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg.

Mae'r staff yn hybu'r plant i chwarae a datblygu yn effeithiol ac maent yn gymwys o ran bodloni eu hanghenion unigolion.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae’r amgylchedd yn caniatáu i blant chwarae mewn ardal ddiogel sydd ag amrywiaeth o gyfleoedd ac adnoddau. Mae’r brif ystafell yn cynnwys cegin fach a thai bach cyfagos, tra bo ystafell synhwyraidd i fyny’r grisiau sydd hefyd yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau tawel. Mae ardal ddynodedig gyda ffens o’i hamgylch yn yr awyr agored, sydd ag adnoddau da, ynghyd ag ardal chwarae meddal dan do.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae gan arweinwyr drefniadau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn ddiogel.

Roedd llyfr ymwelwyr ar gael ac fe’i defnyddid i gofnodi presenoldeb ymwelwyr. Roedd ffens yn amgylchynu’r ardal awyr agored ac roedd y giât ar gau'r holl amser. Roedd yr holl offer glanhau yn cael eu cadw mewn cwpwrdd nad oedd gan y plant fynediad ato. Roedd meddyginiaethau yn cael eu cadw mewn cwpwrdd dan glo a, phan y’u darperid, roedd dau aelod staff yn cofnodi beth gafodd ei ddarparu a phryd. Gwelsom dystiolaeth o staff yn cwblhau asesiadau risg rheolaidd ar gyfer y tu mewn a’r tu allan. Roedd gan bob plentyn unigol ei asesiad risg unigol ei hun ar gyfer y gwasanaeth a thripiau, ynghyd â chynlluniau unigol ar gyfer gadael mewn achos o dân. Dangosodd cofnodion fod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal ar offer trydanol ym mis Chwefror 2017 a bod y larymau tân a mwg wedi eu profi ar ddechrau Gorffennaf 2017. Roedd y plant a’r staff wedi cyflawni ymarferion tân yn rheolaidd, gan sicrhau bod y rhain yn cael eu cynnal gyda gwahanol grwpiau o blant. Roedd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn gyfredol.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod amgylchedd diogel i’r plant.

### 3.2 Pa mor dda mae’r arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae’r amgylchedd y tu mewn yn groesawgar ac yn addas i blant gyda gwaith y plant ac arddangosfeydd lliwgar ar y waliau. Mae’r amgylchedd yn yr awyr agored yn cynnig nifer o gyfleoedd i blant ddatblygu eu holl sgiliau.

Roedd yr ystafell lawr llawr yn ddigon mawr i ddarparu lle i blant chwarae yno mewn gwahanol ffyrdd. Roedd teganau ac adnoddau yn cael eu cadw mewn unedau storio oedd yn hygyrch i’r plant. Roedd adnoddau ac offer o safon dda ac yn addas at y diben. Prynwyd offer megis bwrdd i hybu annibyniaeth y plant wrth ddefnyddio’r tŷ bach. Roedd digon o adnoddau ar gael i’r plant ddewis ohonynt. Roedd yr arddangosfeydd yn llachar a lliwgar ac yn dathlu gwaith y plant – roedd arddangosfeydd o brintiau llaw y plant, tymor yr haf ac

archarwyr. Roedd yr ystafell synhwyraidd yn caniatáu i blant ymlacio mewn ardal dawel â dodrefn meddal a golau amrywiol. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn mwynhau treulio amser yno.

Roedd gan yr ardal awyr agored amrywiaeth o gyfleoedd chwarae a gwelsom y plant yn chwarae ar y treiciau a siglenni, yn y pwll tywod ac ar y wifren sip. Roedd yn cynnwys ardal fawr o laswellt ac roedd y plant yn mwynhau ymlacio ar y dodrefn meddal o dan gysgod y *gazebo*. Roedd yr ardal lawr llawr a'r ardal y tu allan wedi eu haddasu i hybu annibyniaeth i ddefnyddwyr cadair olwyn.

Mae'r arweinwyr yn gweithio i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiddorol, cyffrous a chroesawgar.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Mae plant yn manteisio ar adnoddau, offer a theganau o safon dda.

Gwelsom fod yr adnoddau a'r offer yn rhai o safon dda a'u bod yn addas at y diben. Darparodd y staff ddodrefn i'r plant i ganiatáu iddynt eistedd wrth y bwrdd yn annibynnol a chael mynediad at y teganau a'r offer. Roedd yr adnoddau a'r offer mewn cyflwr da ac roeddent yn lân.

Roedd yr ardal y tu allan yn adnodd cyfoethog ac effeithiol gan ei bod yn rhoi cyfle i blant ymarfer eu sgiliau, megis sgiliau echddygol bras ar y wifren sip a'r treiciau a sgiliau echddygol manwl ar y byrddau sialc. Dywedodd y staff wrthym fod yr offer yn cael eu glanhau yn rheolaidd ac y byddent yn cael gwared o unrhyw deganau wedi torri a'u cyfnewid gyda rhai newydd. Gwelwyd amserlen lanhau yn nodi tasgau glanhau i'w cwblhau bob wythnos a rhai bob tri mis – er enghraifft, glanhau'r pwll peli'n drwyadl. Roedd y staff yn cadw'r adeilad yn lân gan dacluso ar ddiwedd pob sesiwn. Roedd amrywiaeth o adnoddau i'r plant ddewis ohonynt.

Mae'r arweinwyr a'r staff yn darparu a chynnal a chadw adnoddau ac offer o safon dda.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn Breakthro' Caerfyrddin yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gynnal yn dda ac yn rhagori ar y cymarebau staffio sy'n ofynnol. Maent yn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu bodloni a bod y staff yn derbyn cyfleoedd hyfforddi, gwerthuso a goruchwylio rheolaidd. Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau da â'r gymuned leol ac mae'n sicrhau bod rhieni yn cael eu cynnwys mewn digwyddiadau codi arian.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y cartref yn gweithredu'n unol â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Ceir ethos sy'n rhoi gwerth i'r staff a'r plant, gyda'u hanghenion hwy yn ganolbwynt i'r ddarpariaeth.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod staff yn gweithredu'n gwbl unol â pholisïau'r gwasanaeth, megis y polisi cefnogi ymddygiad, a nododd y câi enghreifftiau o ymddygiad da eu dathlu. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod yn adolygu'r polisïau yn rheolaidd. Gweithiodd y staff â'i gilydd yn effeithiol gyda chefnogaeth gan yr arweinwyr. Roedd y datganiad o ddiben yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol cenedlaethol, ac roedd yn cael ei ddiweddaru'n gyson. Roedd yn amlwg bod gan y staff berthynas dda â'r rhieni, a roddodd adborth canmoliaethus iawn am y cartref. Dywedodd un rhiant, "Mae'r staff yn ymrwymedig ac ymroddedig. Gwn fod fy mhlentyn yn ddiogel ac yn hapus yma."

Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol yn y gwasanaeth hwn.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae arweinwyr yn adolygu'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn rhoi ystyriaeth i farn y plant, y rhieni a'r staff.

Gwelsom fod yr arweinwyr yn adolygu'r gwasanaeth bob blwyddyn ac yn llunio adroddiad. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod bob amser yn edrych am feysydd i'w datblygu, gwella a chynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf, megis datblygu'r ardal y tu allan. Roedd hyn i'w weld yn adroddiad y flwyddyn ddiwethaf, lle roedd cryfderau ac ardaloedd i'w datblygu wedi eu nodi yn glir. Prynwyd byrddau sialc newydd a thrên mawr ar gyfer y tu allan gyda mynediad cadair olwyn, ac roedd bwriad i greu cegin fwd a wal ddŵr dros fisoedd yr haf. Roedd yr arweinwyr wrthi'n gwneud cais am grantiau er mwyn prynu bws mini newydd.

Mae'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn effeithiol.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae'r ymarferwyr, y staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn rhagori ar y cymarebau staffio sy'n ofynnol a bod digon o weithgareddau ar gael i nifer y plant sy'n mynychu.

Gwnaethom wirio ffeiliau'r staff a gweld bod yr holl ddogfennau perthnasol yn eu lle. Roedd ffeiliau'r staff yn tystio bod yr holl wiriadau angenrheidiol wedi eu gwneud a bod gan y staff gymwysterau addas. Roedd y staff yn derbyn arfarniadau blynyddol gan y person cofrestredig, ac roedd y rhain yn nodi anghenion hyfforddi a thargedau personol ar gyfer datblygiad. Roedd yr arweinydd yn cadw siart o anghenion hyfforddi staff a chofnod presenoldeb. Roedd staff wedi mynychu cyrsiau amrywiol, megis iechyd a diogelwch yn y gweithle ac ymwybyddiaeth diogelwch tân, yn ogystal â nifer o gyrsiau anghenion arbennig.

Mae'r gwaith o reoli ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn ardderchog.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr wedi datblygu perthynas wych â rhieni a gofalwyr.

Gwelsom fod sgwrs hamddenol rhwng y rhieni a'r staff wrth i'r plant gyrraedd y gwasanaeth. Dywedodd y person cofrestredig wrthym fod rhieni yn cael eu diweddaru ar unrhyw ddatblygiadau yn y gwasanaeth drwy gylchlythyr misol, negeseuon testun, negeseuon e-bost a llyfr cyswllt pob plentyn. Roedd y gwasanaeth wedi lansio gwefan newydd yn ddiweddar. Roedd gan yr arweinwyr gytundebau â'r holl rieni ac roeddent wedi gofyn caniatâd ynghylch agweddau ar y gwasanaeth megis cymryd lluniau a rhoi eli haul ar y plant. Dywedodd y rhieni wrthym fod y gwasanaeth yn cyfathrebu yn eithriadol o dda gyda hwy. Mae'r gwasanaeth yn elusen ac mae'n cynnal digwyddiadau codi arian misol megis noson cwis a chyri, teyrnged Meatloaf, taith gerdded wedi'i noddi, a digwyddiad meddwl, corff ac ysbryd. Roedd yr holl ddigwyddiadau hyn yn cael presenoldeb da gan y staff, y rhieni a'r gymuned leol. Roedd y gwasanaeth wedi ennill gwobr elusen y flwyddyn TSB y tair blynedd ddiwethaf, ac wedi derbyn arian gan y siop gydweithredol leol. Roedd y gwasanaeth yn darparu ymweliad cyflwyno i'r plant a'r rhieni cyn iddynt ddechrau yn y gwasanaeth.

Mae'r arweinwyr yn sefydlu partneriaeth effeithiol â rhieni.

## 5. Gwelliannau y mae eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim.

### 5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn

Dim.

### 5.3 Argymhellion ar gyfer gwella

Dim.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n hamserlen arolygu arferol.

Cynhaliodd arolygydd ymweliad â'r gwasanaeth ar 8 Gorffennaf 2017 a barodd gyfanswm o bum awr. Gwnaethom:

- archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau gan gynnwys ffeiliau staff, ffeiliau plant, cofnodion hyfforddiant, logiau damweiniau a chofnodion cynllunio;
- arsylwi'r plant a'r gofal yr oeddent yn ei dderbyn; a
- siarad â'r person cofrestredig/person â gofal, plant, rhieni a staff.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan, www.aggcc.org.uk

## Ynglŷn â’r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal dydd i blant**<br>**Gofal y tu allan i oriau ysgol** |
| **Person cofrestredig** | **Emyr Beynon** |
| **Uchafswm y lleoedd cofrestredig** | **10** |
| **Ystod oedran y plant** | **5 – 19 mlwydd oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Sadwrn a gwyliau ysgol**<br>**10am – 4pm** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy iaith** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC** | **18 Awst 2014** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **8 Gorffennaf 2017** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau’n Deg?** | **Nac ydy** |
| **Ydy addysg y Blynyddoedd Cynnar i blant tair a phedair oed yn cael ei darparu yn y cartref?** | **Nac ydy** |
| **Ydy’r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Ydy. Mae hwn yn wasanaeth sy’n darparu cynnig gweithredol y Gymraeg. Mae’n darparu gwasanaeth sy’n rhagweld, nodi a bodloni gofynion y bobl sy’n defnyddio neu a allai ddefnyddio’r gwasanaeth o ran y Gymraeg a’i diwylliant.** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |